

## Galwad agored am werthuswyr annibynnol:

### gwerthusiad o brosiect llesiant creadigol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghonwy a Sir Ddinbych

#### Crynodeb

Ariennir *Celfyddydau a Chrebwyll* gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring. Yn yr ail gyfnod, mae Byrddau Iechyd ledled Cymru yn defnyddio celfyddydau a chreadigrwydd gyda phlant a phobl ifanc sy'n ymwneud â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) gyda'r nod o wella eu llesiant meddyliol. Bydd y cyllid yn para am gyfnod o dair blynedd (yn amodol ar gais llwyddiannus).

Yn ystod y flwyddyn gyntaf yng Ngogledd Cymru, mae tîm Celfyddydau mewn Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn gweithio gyda Chelfyddydau Hamdden Sir Ddinbych Cyf a thîm Cymorth Cynnar CAMHS i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal trwy gynlluniau mewngymorth i ysgolion, gan weithio gydag ysgolion lleol yn ardal Sir Ddinbych. Rydym hefyd yn gweithio gyda chanolfannau teulu yn ardal Conwy, i gefnogi rhieni trwy greadigrwydd er eu lles nhw a lles eu plant/person ifanc.

Rydym am benodi gwerthuswr annibynnol i werthuso effaith y prosiect ar gyfranogwyr o ran cefnogi neu o bosibl, gwella eu llesiant.

#### Briff y prosiect

Canfu Sefydliad Baring yn ei adroddiad *Creatively Minded and Young*, 'mae consensws bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc dros y 15 i 20 mlynedd diwethaf' (2024: t.6).

Mae tystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd defnyddio'r celfyddydau mewn gofal iechyd, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc (e.e., Fancourt, Warran, ac Aughterson 2020). Ysgogiad, ffocws, tynnu sylw, sicrwydd, seibiant, sgiliau cymdeithasol, mwynhad a phleser ... gellir meithrin y cyfan trwy greadigrwydd.

Mae'r dystiolaeth yn parhau i ddangos pryderon ynghylch iechyd meddwl a llesiant ein poblogaeth, gyda niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc yn profi heriau gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Yng Nghymru a BIPBC, mae symudiad tuag at ddulliau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned er mwyn sicrhau gofal yn agosach at y cartref.

Nod y prosiect hwn yw canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o gyfnodau allweddol 3 a 4, gydag anghenion Iechyd Meddwl sy'n dod i'r amlwg fel y'u diffinnir gan staff CAMHS mewn cydweithrediad ag ysgolion. Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn wasanaethau arbenigol a ddarperir gan y GIG sy'n gweithio gyda phobl ifanc hyd at 16 neu 18 mlwydd oed.

Y nod yw i blant a phobl ifanc fynychu gweithdai creadigol gydag artist, am o leiaf 6 sesiwn sy'n para 1-2 awr, am gyfnod hyd at dymor llawn (tua 12-14 wythnos). Bydd y sesiynau yn cael eu cefnogi gan aelod o staff CAMHS, Swyddogion Llesiant Ysgolion, a chydweithwyr o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig a thîm Celfyddydau mewn Iechyd BIPBC.

Mae effaith a chanlyniadau posibl y prosiect yn cynnwys:

- Gwella llesiant yn gyffredinol (e.e., hwyliau, hyder, cysylltedd cymdeithasol, dysgu sgiliau newydd, ymgysylltiad, a diddordeb)
- Gwella gwytnwch (cysylltu â rhaglen Friends Resilience lle bo modd [Friends Resilience](#))
- Cefnogi newidiadau i'r ffyrdd o weithio gyda CAMHS sy'n gysylltiedig â gwytnwch a meithrin sgiliau cymdeithasol-emosiynol
- Gall staff yr ysgol ddysgu sgiliau i gefnogi'r gwaith drwy weithio gyda'r artist a'r gweithiwr CAMHS
- Cefnogi plant a phobl ifanc o rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru a allai elwa fwyaf o gymryd rhan mewn gweithdai creadigol

Bydd rhieni o ardal Conwy hefyd yn cael gwahoddiad i gyfres o weithdai creadigol. Gallant fynychu 1 neu bob un o'r 5 sesiwn sy'n cynnwys gwahanol ddulliau creadigol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi eu llesiant, yn ogystal â'u helpu i ymgysylltu â'u plant/person ifanc trwy greadigrwydd gartref, i gefnogi llesiant y teulu.

Mae'r bartneriaeth hon yn cefnogi Fframwaith Strategol Celfyddydau mewn Iechyd BIPBC wrth weithio mewn partneriaeth i wella iechyd poblogaeth Gogledd Cymru drwy'r celfyddydau, gan ganolbwyntio ar iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig gyda'r rhai a allai fod yn profi anghydraddoldebau iechyd.

Mae ffocws y prosiect hwn ar y gymuned a lleihau'r pwysau ar unedau a gwasanaethau iechyd meddwl lleol wrth ymgysylltu â'r rhai sy'n profi afiechyd meddwl: er mwyn atal lles meddwl rhag gwaethygu'n gynnar yn y diagnosis neu'r driniaeth, cefnogi'r rhai sy'n profi heriau iechyd meddwl ar hyn o bryd, neu i atal salwch rhag dychwelyd. Yn yr un modd, dylai'r prosiect gefnogi llesiant yn gyffredinol, ynghyd â gwella hwyliau, magu mwy o hyder, ymdeimlad o werth, mwynhad a phleser, cysylltedd cymdeithasol, tynnu sylw a ffocws, ac ar gyfer grwpiau teulu- eu llesiant a chysylltedd teuluol.

Mae gweithgareddau gwerthuso cenedlaethol yn digwydd ar draws Byrddau Iechyd sy'n cynnwys arolwg ac olwynion llesiant. Dylai'r elfen werthuso leol ategu'r agwedd hon, nid ei dyblygu. Bydd angen i'r gwerthuswr ymgysylltu â'r tîm CAMHS i ddefnyddio data y gallant ei gasglu a'i rannu, a all gynnwys mesurau meintiol, er mwyn lleihau'r baich gwerthuso ar gyfranogwyr. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y gwerthuswr yn defnyddio ac yn datblygu dulliau gwerthuso ansoddol a chreadigol, ac mewn cyfleoedd i ddangos manteision



economiaidd y prosiect. Dyma flwyddyn 1 o brosiect 3 blynedd posibl. Er nad ydym ar hyn o bryd yn gallu gwarantu gwaith pellach mewn perthynas â'r prosiect, bydd elfen werthuso ar gyfer pob blwyddyn o'r prosiect, ac efallai y bydd posibiliadau i ddatblygu gwerthusiad blwyddyn 1 ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 (yn amodol ar gadarnhad o gyllid/addasrwydd offer a thechnegau gwerthuso, a datblygiad y prosiect yn genedlaethol ac yn lleol).

### ***Nodau'r prosiect***

Ceir dwy elfen i'r prosiect ar gyfer cyflawni'r nodau:

1. Gweithgareddau creadigol mewn partneriaeth, mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol yng Nghonwy a Sir Ddinbych i gefnogi cylch gwaith eang o blant a phobl ifanc sy'n profi anawsterau iechyd meddwl. Nod yr elfen gymunedol hon yw cefnogi Gofal Iechyd trwy leihau'r pwysau ar wasanaethau drwy gefnogi'r rhai ag anawsterau iechyd meddwl yn gynt, yn ogystal â'r rhai sy'n profi heriau parhaus, i gefnogi eu lles meddwl er mwyn lleihau'r angen am fynediad at ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd.
2. Supporting families to utilise creative approaches to support their wellbeing, and nourish connection and engagement within the family unit with benefits to the parent(s) and children and young people involved.

### ***Gweithgareddau'r prosiect***

Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal gan artistiaid a contractir yn allanol. Bydd y gweithgareddau'n rhai creadigol mewn partneriaeth, mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol yng Nghonwy a Sir Ddinbych i gefnogi cylch gwaith eang o blant a phobl ifanc sy'n profi anawsterau iechyd meddwl. Bydd gweithgareddau'n digwydd fel a ganlyn:

- Oddeutu 6 bloc wythnos (neu debyg) o weithgaredd creu celf mewn ysgolion yn Sir Ddinbych (x 4 ysgolion)
- 5 sesiwn mewn 5 Canolfan Deuluol yng Nghonwy

Byddwn yn adrodd ar gynnydd i'r sawl sy'n ariannu ac i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

### **Lleoliad**

Bydd y prosiect yn cael ei gynnal mewn gwahanol leoliadau yng Nghonwy a Sir Ddinbych  
Er enghraifft: ysgolion, canolfannau teulu, mannau cymunedol



## Cyfanswm y gyllideb werthuso

£3,500 (gan gynnwys TAW) a'r holl gostau ar gyfer dylunio, darparu ac adrodd

Dylai pob ymateb gynnwys prisiau cywir sy'n cynnwys treuliau a dadansoddiad manwl o'r cynllun gwerthuso arfaethedig. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hasesu ar sail ansawdd y gwasanaeth a'r gallu amlwg i fodloni'r briff, yn hytrach na'r pris isaf. Fodd bynnag, mae gwerth am arian hefyd yn faen prawf i'w ystyried wrth ddewis. Rydym yn gwahodd pob ymgeisydd i gyflwyno eu cynigion mwyaf cost-effeithiol.

## Dulliau / Gweithredu

Rydym yn croesawu gwaith aml-ddull gan gynnwys dulliau meintiol ac ansoddol megis arsylwadau, mesurau llesiant safonol, cyfweiliadau a grwpiau ffocws, yn ogystal â dulliau gwledol a chreadigol o werthuso y gellir eu hymgorffori yng ngweithgareddau'r prosiect. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ddarparwyr sy'n gweithio gyda 'Newid Mwyaf Arwyddocaol'. Bydd angen i unrhyw werthusiad fod yn addas ar gyfer pobl sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl. Gallai hyn gynnwys:

- Newidiadau sy'n digwydd i gyfranogwyr wrth ymgysylltu â'r prosiect
- Profiadau ac effeithiau sesiynau
- Sylwadau artistiaid a phartneriaid sy'n cyflwyno

Bydd mesurau'n cael eu cytuno a gallant gynnwys: hunan-adrodd a newidiadau i deimladau cyffredinol o lesiant a welir.

Mae potensial hefyd i ystyried ymgysylltu â thimau a gwasanaethau gofal iechyd, neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill.

Dylid hefyd sicrhau mesurau i ystyried teimladau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan fel: rhyddhad, anogaeth, sgiliau newydd a hyder, gwell hwyliau, diddanwch, cynnydd yn sgiliau cymdeithasol, ymgysylltiad staff/cyfranogwyr, cefnogaeth ac ymgysylltiad teuluol, er enghraifft.

Ar gyfer staff, partneriaid ac artistiaid, dylai gwerthusiad ystyried ymgysylltiad staff/cyfranogwyr, eu lles eu hunain, sgiliau a hyder newydd, rhwystrau neu gyfleoedd i ymgysylltu'n creadigol o fewn eu rôl, er enghraifft.

Efallai y bydd gwerthuswyr am weithio gydag ymarferydd creadigol neu artist i archwilio datblygu offer neu ddulliau gwerthuso creadigol mewn ymateb i ddata'r prosiect/offer gwerthuso. (Dylid cynnwys cost hyn yn y cynnig).



## **Gofynion ar gyfer y gwerthuswr annibynnol**

Bydd y gwerthuswr annibynnol yn gweithio ar y prosiect hwn o fis Ebrill 2026 (pan gaiff ei benodi) hyd at fis Medi 2026 (pan fydd yr adroddiadau terfynol yn cael eu cyflwyno).

Bydd y gwerthuswr annibynnol yn gweithio'n agos gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf i gwblhau gwerthusiad yn ôl yr hyn yr amlinellwyd yn y briff hwn. Bydd diweddariadau interim yn cael eu cyflwyno i BIPBC a Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Bydd y gwerthuswr yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd misol y prosiect (ar ail ddydd lau'r mis) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i gysylltu'n hawdd â holl bartneriaid y prosiect.

## **Diogelu, diogelu data a moeseg**

Bydd y prosiect yn cydymffurfio â gweithdrefnau moeseg BIPBC ar gyfer gwerthuso gwasanaethau.

Bydd y gwerthuswr yn rheoli a threfnu unrhyw ddata gwerthuso a gesglir ar gyfer casglu, rhannu a diogelu data drwy gytundeb â phartneriaid. Bydd y gwerthuswr a ddewisir yn darparu datganiad diogelu data i gynnig sicrwydd ynghylch sut mae data'n cael ei storio a'i gadw. Bydd cytundeb wedi ei sicrhau ar gyfer rhannu data'n briodol i'w werthuso gan bartneriaid, yn ôl yr angen. Bydd y gwerthuswr a ddewisir yn rhoi sicrwydd ansawdd i dîm y prosiect bod y safonau ansawdd uchaf wedi'u cyrraedd yn y dulliau a ddefnyddiwyd, ac yn darparu diweddariadau interim a chopïau drafft o'r prif nodau.

Bydd angen i'r gwerthuswr ddarparu prawf o hunaniaeth drwy ddull adnabod gweledol (e.e. pasbort neu drwydded yrru), prawf o wiriad DBS cyfredol a chlir, a phrawf o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu yswiriant perthnasol arall, ar gyfer cynnal y gwaith. Dylid sicrhau eu bod ar gael yn barod i'w cyflwyno ar ei benodiad i'r swydd er mwyn caniatáu cynefino esmwyth ac effeithlon. Os nad ydych chi wedi gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd o'r blaen, bydd angen i ni lenwi ffurflen cyflenwr newydd gyda chi.

## **Dylunio a chasglu data**

Bydd y gwerthuswr yn gyfrifol am gasglu data, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn mynychu sesiynau'n rheolaidd yn ôl yr angen, yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a thrafodaethau er mwyn datblygu'r gwerthusiad, ac yn gyfrifol am ddylunio, dadansoddi data ac adrodd. Bydd y gwerthuswr hefyd yn rhannu canlyniadau interim a diweddariadau allweddol gyda'r darparwyr a'r partneriaid.



## Canlyniadau

- Protocol gwerthuso gan gynnwys disgrifiad byr o fwriad y gwerthusiad, dulliau a gweithredoedd arfaethedig, disgrifiad o'r ymyriadau, maint y samplau, manylion y data i'w casglu a llinellau amser ar gyfer casglu data
- Adroddiad gwerthuso prosiect manwl yn cynnwys:
  - Crynodeb gweithredol yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr adroddiad
  - Cyflwyniad – yn rhoi'r cefndir ac yn amlinellu cynnwys yr adroddiad
  - Disgrifiad o'r ymyriad
  - Methodoleg – disgrifiad o'r strategaeth ymchwil a ddilynwyd
  - Canfyddiadau
  - Trafodaeth – ynglŷn â'r canlyniadau, cyfyngiadau'r treial a chyfeiriad yr ymchwil i ddod
  - Cyfeiriadau yn unol â dull Harvard ar gyfer unrhyw dystiolaeth a ddefnyddir
  - Unrhyw wybodaeth atodol berthnasol (e.e. tablau, siartiau, data cryno)

Gall hyn fod yn ddeinamig yn weledol ac yn greadigol yn ei gyflwyniad.

- Dylid cyflwyno'r adroddiad terfynol mewn fformat sy'n barod i'w gyhoeddi'n allanol, a dylai gynnwys logos partneriaid, a fformat y cytunwyd arno
- Darparu gwybodaeth amserol am gynnydd y gwerthusiad fel y gall partneriaid prosiect adrodd i'w cyllidwyr nhw yn ôl y gofyn

## Llinell amser y prosiect

Gweler isod linell amser ar gyfer y broses ymgeisio a llinell amser arfaethedig ar gyfer y prosiect

### *Amserlen ar gyfer y cais a'r prosiect:*

Carreg Filltir	Dyddiad dangosol
Galwad agored	18 Mawrth 2026
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	Dydd Mawrth 31 Mawrth 2026 4 pm BST
Llunio rhestr fer a phenderfynu	1-2 Ebrill 2026
Contractio	7 – 10 Ebrill 2026



Cychwyn y prosiect	13 Ebrill 2026
Diweddariadau/adroddiadau interim	Diwedd Mai 2026, Gorffennaf 2026
Adroddiad terfynol y prosiect	25 Medi 2026

## Cymhwysedd

Mae'r alwad hon yn agored i werthuswyr sy'n gallu bodloni briff y prosiect, yr hyn sydd angen ei gyflawni, a'r amserlen. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

## Gwneud cais

- Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb at: [BCU.ArtsInHealth@wales.nhs.uk](mailto:BCU.ArtsInHealth@wales.nhs.uk) **erbyn 4pm Dydd Mawrth 31 Mawrth 2026**
- Byddwch yn cael gwybod y canlyniad erbyn Dydd Mawrth 7 Ebrill 2026

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r alwad agored hon, cysylltwch â ni drwy e-bost ar [BCU.ArtsInHealth@wales.nhs.uk](mailto:BCU.ArtsInHealth@wales.nhs.uk). Bydd tîm Celfyddydau mewn Iechyd BIPBC yn ymdrechu i ateb unrhyw ymholiadau o fewn 3-4 diwrnod gwaith

### ***Dylai eich Cais gynnwys:***

- Datganiad byr yn dweud pam fod gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn (600 gair ar y mwyaf), a'ch dull gweithredu cychwynnol
- 2 enghraifft o waith gwerthuso perthnasol yn y maes hwn
- CV (unigol neu gwmni)
- Dyfynbris wedi'i gostio'n llawn (gan gynnwys TAW)
  
- Gallwch gynnwys dolenni ar gyfer enghreifftiau ar-lein

## Asesu ceisiadau

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan dîm partner y prosiect. Asesir y ceisiadau yn ôl y meini prawf isod:



### *Y cais – ateb briff y prosiect*

- Pa mor dda mae'r cais yn ateb y briff
- Pa mor dda mae'n dangos y gallu i gyflawni'r holl ofynion a disgwyliadau
- Y gallu i ddangos tystiolaeth o ystod o fesurau ac offer priodol

### *Cyllideb*

- Dichonoldeb ar sail y gyllideb a gyflwynwyd
- Gwerth am arian

### *Tîm y prosiect*

- Gallu'r gwerthuswr i roi sicrwydd ynghylch ei sefydlogrwydd a'i hyfywedd trwy gydol y prosiect
- Gallu'r gwerthuswr i ddangos ei allu i weithio mewn partneriaeth ac i weithio gyda chyfranogwyr sy'n profi heriau iechyd meddwl amrywiol a heriau iechyd eraill sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles

### *Diogelu Data a chydymffurfiaeth moeseg*

- Gallu'r gwerthuswr i sicrhau cydymffurfiaeth o ran trin data
- Gallu'r gwerthuswr i sicrhau prosesau moesegol (e.e., risg)

## **Arweiniad pellach**

Mae tîm y prosiect yn cadw'r hawl, drwy weithredu'n rhesymol, i:

- Roi'r gorau i'r drefn ddyfarnu os na cheir ceisiadau priodol;
- Newid yr amserlen ar gyfer caffael y rôl hon, ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd Celfyddydau mewn Iechyd BIPBC yn hysbysu pob ymgeisydd o unrhyw newid, yn y ffordd gyflymaf posibl;
- Terfynu trafodaethau gyda sefydliadau sy'n ymgeisio;
- Dirwyn y broses sy'n arwain at benodi i ben;

Peidio â phenodi cyflenwr o gwbl o ganlyniad i'r broses hon

Ar ôl penodi i'r rôl:

- Gofyn am ddwy rownd o adolygiadau ar unrhyw ddrafftiau o adroddiadau/cyflwyniadau



- Rhoi'r gorau i weithio gyda chyflenwr os na chaiff y gwaith ei gwblhau'n foddhaol yn unol â'r briff
- Talu yn unol â gwaith a gwblhawyd/a wnaed i lefel foddhaol

Ni fydd Celfyddydau mewn lechyd BIPBC o dan unrhyw amgylchiadau yn atebol mewn unrhyw ffordd am unrhyw un o'r gweithredoedd hyn.

- Ni chaniateir unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r prosiect hyd nes y bydd Celfyddydau mewn lechyd BIPBC wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig penodol ar gyfer y cyhoeddusrwydd perthnasol. Ni ellir gwneud unrhyw ddatganiadau i unrhyw gyfryngau ynglŷn â natur y cais hwn, ei gynnwys nac unrhyw gynigion, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan bartneriaid y prosiect.
- Ni fydd Celfyddydau mewn lechyd BIPBC yn ad-dalu unrhyw gostau fydd gan sefydliadau wrth baratoi eu ceisiadau.
- Os ydych yn ansicr o ystyr cwestiwn neu unrhyw beth yn y gwahoddiad hwn i dendro yna cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gofyn i Gelfyddydau mewn lechyd BIPBC am eglurhad yn ysgrifenedig drwy e-bost.
- Bydd BIPBC yn ymdrechu i ymateb i unrhyw ymholiad o fewn 3-4 diwrnod gwaith. Gall Celfyddydau mewn lechyd BIPBC hefyd wrthod ateb cwestiwn os yw'n ystyried bod y cwestiwn yn amhriodol. Os na fydd Celfyddydau mewn lechyd BIPBC yn gallu ateb cwestiwn, byddant yn datgan hynny.

**\*diwedd y ddogfen\***

